

PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY 1872

# Cynllun Cydraddoldeb Strategol Prifysgol Aberystwyth 2024-2028

Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn gynllun cefnogol allweddol sy'n rhoi sylfaen i Gynllun Strategol creiddiol y Brifysgol.

Ein nod yw meithrin cymuned dysgu a gweithio sy'n gynhwysol ac yn ddwyieithog ac sy'n rhydd o wahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth, lle mae ein staff a'n myfyrwyr i gyd (sef ein "cymuned") yn:

- Teimlo bod croeso iddynt a'u bod yn perthyn.
- Cael eu cynnwys ac yn cael eu cynorthwyo i gyrraedd eu potensial llawn.
- Cael eu parchu a'u gwerthfawrogi heb deimlo bod angen cuddio unrhyw agweddau ar eu hunaniaeth go iawn.

Wrth wneud hynny, dylai mentrau cydraddoldeb, amrywioldeb a chynhwysiant gefnogi ein blaenoriaethau strategol ehangach sef, Denu a Chadw Myfyrwyr, Profiad y Myfyrwyr, Rhagoriaeth ac Effaith Ymchwil (gan gynnwys y FfRhY), a Chynaliadwyedd Ariannol.

*"Er mwyn creu amgylchedd cynhwysol, credwn fod yn rhaid inni sicrhau bod pawb, ni waeth pwy ydyn nhw, yn cael yr un cyfleoedd. Rhaid inni hefyd sicrhau bod rhwystrau diwylliannol, megis gwahaniaethu a diffyg goddefgarwch, yn cael eu chwalu."*

Canolbwyntiwn ar ein tair thema 'Cynhwysiant' allweddol sef:

**Amlygrwydd**

**Cymuned Amrywiol**

**Datblygu**

Gwerthoedd ein Cenhadaeth Strategol sy'n arwain ein dull o weithio:

## Trawsnewidiol

yn darparu profiad sy'n cefnogi, grymuso a chyfoethogi ein myfyrwyr.

## Creadigol ac arloesol

yn gwerthfawrogi creadigrwydd ym mhawb ac yn diweddaru ein gwybodaeth, ein harferion a'n proffesiynoldeb yn barhaus er mwyn gwella profiad y myfyrwyr.

## Cynhwysol

yn dathlu ein diwylliant amrywiol, drwy alluogi, annog, a gwerthfawrogi taith barhaus pawb i sicrhau eu bod yn gwella'n gyson.

## Uchelgeisiol

yn ymdrechu i ddarparu'r profiad o'r ansawdd gorau bob amser sy'n paratoi ein myfyrwyr ar gyfer eu dyfodol fel graddedigion.

## Cydweithredol

drwy weithio gyda'n gilydd fel cymuned gyda'n partneriaid er mwyn meithrin cysylltiadau parhaol sy'n cyflawni ein cyd-ddyheadau.

## Lle’r ydyn ni ar hyn o bryd?

Rydym wedi gosod sylfeini da i’n gwaith Cydraddoldeb, Amrywioldeb a Chynhwysiant; rydym yn cydnabod bod angen i ni ysgogi newid diwylliannol pellach a fydd yn adeiladu ar sylfaen ein hymarfer gorau wrth arwain, hyrwyddo a gwreiddio’r materion hyn ar draws y brifysgol.

Ein nod yw sicrhau bod ein diwylliant yn agored ac yn dangos parch, yn dod o hyd i unrhyw ffactorau sy’n rhwystro pobl rhag cael addysg a chyflogaeth, ac yn tynnu’r rhwystrau hynny. Rydym am i aelodau ein cymuned deimlo’n ddiogel a’u bod yn cael eu gwerthfawrogi, ac rydym am iddynt gyflawni eu potensial llawn er budd yr unigolyn, y sefydliad a’r gymdeithas ehangach. Rhaid i’r myfyrwyr a’r staff dderbyn bod ganddynt hwy gyfrifoldeb i weithredu’n gynhwysol yn eu holl arferion gwaith a dysgu. Rydyn ni am ymgorffori cydraddoldeb, amrywioldeb a chynhwysiant ym mhob rhan o’r Brifysgol fel y bydd yn ganolog i bopeth a wnawn. Defnyddiwn ffordd o weithio a arweinir gan ddata, ochr yn ochr â llais cymuned ein staff a’n myfyrwyr i feithrin diwylliant cynhwysol. Cymuned y Brifysgol lle rydyn ni i gyd yn chwarae ein rhan, gan fod yn atebol ac yn cymryd perchnogaeth o’r gwaith i greu amgylchedd cynhwysol lle mae pawb yn perthyn.

## Y dystiolaeth

Ar sail ein tystiolaeth, nid oes gennym gynrychiolaeth ddigonol, yn enwedig o ran cydraddoldeb rhwng y rhywiau ymhlith ein hacademyddion uwch, ac o ran ethnigrwydd ledled ein myfyrwyr a’n staff. Bydd y cynllun hwn yn canolbwyntio ar yr elfennau hynny. Mae’r amcanion a’r camau gweithredu ar gyfer y cynllun hwn wedi’u llunio trwy:

- Cyfarfodydd ymgynghori â’n staff a’n myfyrwyr a dadansoddiad o’r data ar gydraddoldeb ac amrywioldeb yn nghymuned ein Prifysgol.
- Cynllun gweithredu’r Brifysgol ar gyfer dyfarniad Efydd Athena SWAN.
- Strategaeth Iechyd a Lles.
- Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-Hiliol a Chynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru Llywodraeth Cymru.
- Cynllun Gweithredu ar Hil y Brifysgol a’r gwaith i ddatblygu Siarter Cydraddoldeb Hil.
- Is-Gynllun y Gymraeg a’i Diwylliant.
- Strategaeth Ymchwil ac Arloesi 2019-2024.

Dros y flwyddyn i ddod, bydd nifer o gynlluniau strategol allweddol, gan gynnwys Cynllun Strategol y Brifysgol, y Strategaeth Iechyd a Lles a’r Strategaeth Ymchwil, yn cael eu hadolygu, a bydd Cydraddoldeb, Amrywioldeb a Chynhwysiant yn greiddiol i’r cwbl. Cytunwyd felly i gyflwyno ein camau gweithredu ar gyfer y flwyddyn nesaf, ac yna diweddaru’r Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn i sicrhau ei fod yn cyd-fynd â’r lleill, ac yn cael ei ymgorffori ynddynt.



1

## Amlygrwydd

Llywodraethu ac arweinyddiaeth a fydd yn codi ymwybyddiaeth am bob agwedd ar Gydraddoldeb, Amrywioldeb a Chynhwysiant.

- Datblygu ymgyrch 'adnabod eich staff, adnabod eich myfyrwyr' i ddarparu data 'byw' ar Gydraddoldeb, Amrywioldeb a Chynhwysiant i'r Adrannau a'r Cyfadrannau.
- Sicrhau bod gan arweinyddiaeth y Weithrediaeth berchnogaeth ar gydraddoldeb, amrywioldeb a chynhwysiant a bod y ffactorau hynny wedi'u hymgorffori yn yr arweinyddiaeth.
- Darparu hyfforddiant Gwrth-Hiliaeth ac Ymwybyddiaeth Ddiwylliannol i Uwch Arweinwyr yn rhan o'r rhaglen arweinyddiaeth ehangach.
- Gweithio mewn partneriaeth ag Undeb y Myfyrwyr ar ymgyrch gwrth-wahaniaethu a gwrth-aflonyddu i'n cymuned.
- Datblygu ac ymgorffori Calendr Cynhwysiant ar draws y Brifysgol gyfan i hyrwyddo amrywiaeth o ddigwyddiadau a gweithgareddau ar draws ystod o nodweddion gwarchodedig.
- Cyflwyno Cais am Ddyfarniad Efydd i Siarter Cydraddoldeb Hil AdvanceHE.



2

## Cymuned Amrywiol

Creu amgylchedd gweithio a dysgu cynhwysol a chefnogol.

- Mentrau gweithredu cadarnhaol a arweinir gan ddata a mentrau marchnata a dargedir er mwyn cynyddu cynrychiolaeth ac amrywioldeb ymhlith y staff a chorff y myfyrwyr.
- Cyhoeddi proffiliau staff i hyrwyddo a dathlu amrywioldeb mewn swyddi - yn enwedig i hyrwyddo amrywioldeb o ran y rhywiau mewn swyddi uwch.
- Hyrwyddo a chryfhau'r drefn ar gyfer adrodd achosion o fwlio ac aflonyddu, a'r cymorth a ddarperir o fewn y gymuned.
- Meithrin cysylltiadau cadarnhaol ag arweinwyr ffydd cymunedol ac adolygu'r ddarpariaeth Ysbrydolrwydd a Ffydd ar ein campysau.
- Sefydlu fforwm Anabledd a Lles i'r gymuned.
- Canllawiau a chymorth i staff ar sut y gallant fynd ati i 'Gynyddu amrywioldeb y cwricwlwm'.
- Datblygu canllawiau ar iaith gynhwysol i'r gymuned.



## 3 Amlygrwydd

### Cymuned Amrywiol

Sicrhau bod cydraddoldeb ac ymagwedd gynhwysol ym mholisïau a phrosesau'r Brifysgol yn yr amgylcheddau corfforol a digidol.

- Monitro ac adolygu'r polisïau, y rhaglenni gwobrwyo a chydnabod, a'r prosesau denu a dethol staff er mwyn sicrhau eu bod yn deg, yn dryloyw a bod yr holl staff yn cael eu trin yn deg.
- Diweddaru map campws Lles a Chynhwysiant y Brifysgol.
- Adolygu'r proses Asesu Effaith ar Gydraddoldeb a'i gwreiddio o fewn trefn y Brifysgol ar gyfer cynllunio prosiectau a gwneud penderfyniadau.
- Gweithio gyda'r tîm Caffael ar fapio sut mae gwerthoedd y Brifysgol a chyfleoedd cyfartal wedi'u hymgorffori yn y drefn dyfarnu a rheoli contractau.

## 4 Datblygu

Cryfhau'r rhaglen Hyfforddiant a mentora ar Gydraddoldeb, Amrywioldeb a Cynhwysiant

- Datblygu rhaglen newydd o fentora a mentora 'o chwith' ar gyfer aelodau staff sy'n perthyn i grwpiau lleiafrifol.
- Cynyddu cyfraddau cwblhau'r hyfforddiant ar Amrywioldeb yn y Gweithle, Rhagfarn Ddiarwybod a Hyfforddiant Gwrth-Hiliaeth ymhlith yr holl staff a'i ymgorffori'n rhan o broses ymsefydlu staff newydd.
- Darparu hyfforddiant ac adnoddau am Ymwybyddiaeth Ddiwylliannol, Ymyrraeth Gwyliedydd, Prifysgol sy'n Ystyriol o Drawma, a Niwroamrywiaeth i staff er mwyn codi ymwybyddiaeth am rwystrau ac er mwyn chwarae rhan weithredol wrth greu amgylchedd cynhwysol lle y mae pawb yn cael eu parchu.
- Cyflwyno hyfforddiant am Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, ac Atal Hunanladdiad i staff a myfyrwyr.

## 5 Datblygu

### Cymuned Amrywiol

Cau'r gagendor cyflogau staff

- Darganfod beth yw'r Bwlch Cyflog Ethnigrwydd a'i gyhoeddi ochr yn ochr â'r Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau.
- Pennu unrhyw gymorth ac arweiniad ychwanegol y mae eu hangen ar staff i wneud cais am Ddyrchafiad Academaidd ac mewn rhaglenni cyllid grant mewnol neu allanol.

## 6 Datblygu

### Cymuned Amrywiol

Cau gagendor cyrhaeddiad myfyrwyr

- Adolygu ein dulliau o adrodd am wahaniaethau o ran cyrhaeddiad ac o ran cadw myfyrwyr o rai grwpiau â nodweddion gwarchodedig, a'n dulliau o ymdrin â'r gwahaniaethau hynny.
- Dal ati i ddatblygu ac ehangu 'Cymorth parodrwydd am yrfa' sy'n darparu cymorth i fyfyrwyr sy'n wynebu rhwystrau wrth geisio cael cyflogaeth.



7

## Datblygu Cymuned Amrywiol

# Meithrin diwylliant ac amgylchedd Ymchwil cynhwysol

- Datblygu canllawiau a chymorth i staff sy’n dymuno symud rhwng contractau Dysgu ac Ysgolheictod, Dysgu ac Ymchwil, ac Ymchwil yn unig.
- Adolygu’r model dyrannu llwyth gwaith, disgwyliadau perfformiad a blaenoriaethau a osodir ar gyfer ymrwymiadau dysgu ac ymchwil.
- Adolygu’r polisi absenoldeb ymchwil i sicrhau bod y staff i gyd yn cael cyfle cyfartal.



Bydd y cynnydd ar y camau blaenoriaeth blynyddol yn cael ei fonitro yng nghyfarfodydd Grŵp Goruchwylio Strategol Cydraddoldeb, Amrywioldeb a Chynhwysiant ac yn cael ei gynnwys yn yr Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol. Cytunir ar flaenoriaethau ar gyfer camau gweithredu’r dyfodol drwy siarad â rhanddeiliaid allweddol, dadansoddi’r data perthnasol, a dal ati i ymgynghori â’r staff a’r myfyrwyr i sicrhau bod Cydraddoldeb, Amrywioldeb a Chynhwysiant yn cael eu hymgorffori ym mhob rhan o’r Brifysgol a’i chynlluniau strategol.



Gellir darparu'r ddogfen hon mewn amryw o fformatau, e.e. copi papur, Braille, print bras, ac yn y blaen.

Os bydd angen copi mewn fformat gwahanol arnoch chi neu ar rywun rydych yn ei adnabod, cysylltwch â Dylan Jones dej@aber.ac.uk

Prifysgol Aberystwyth
Campws Penglais
Aberystwyth

aber.ac.uk

Argraffwyd ar bapur wedi'i ailgylchu 100%